Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Health and Social Care Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

1 Chwefror 2013

Annwyl Syr/Madam

**Ymgynghoriad ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**

Fel rhan o'i ystyriaethau Cyfnod 1, mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn galw am dystiolaeth ar egwyddorion cyffredinol y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). I gynorthwyo'i ystyriaethau, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn am y pwnc hwn.

**Beth yw Bil?**

Cyfraith ddrafft yw Bil. Unwaith y bydd Bil wedi cael ei ystyried a'i basio gan y Cynulliad ac wedi cael Cydsyniad Brenhinol gan y Frenhines, mae'n dod yn 'Ddeddf Cynulliad'.

Ceir proses pedwar cyfnod ar gyfer ystyried Bil. Yn ystod Cyfnod 1 bydd pwyllgor yn ystyried egwyddorion cyffredinol Bil (sy'n cynnwys casglu tystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar gan bartïon a rhanddeiliaid sydd â diddordeb) a bydd y Cynulliad yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol hynny.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol / Health and Social Care Committee
Ffôn / Tel : 029 2089 8041
E-bost / Email : PwyllgorIGC@cymru.gov.uk

**Beth mae'r Bil hwn yn ceisio'i gyflawni?**

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn datgan:

"Mae Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn darparu ar gyfer un Ddeddf i Gymru sy'n dwyn ynghyd ddyletswyddau a swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â gwella llesiant y bobl hynny y mae angen gofal a chymorth arnynt, a'r gofalwyr hynny y mae angen cymorth arnynt. Mae'r Bil yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer gwireddu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i integreiddio'r gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cynorthwyo pobl o bob oed, a chynorthwyo pobl fel rhan o deuluoedd a chymunedau.

Bydd yn trawsnewid y modd y caiff y gwasanaethau cymdeithasol eu darparu, yn bennaf drwy hybu annibyniaeth pobl er mwyn rhoi mwy o lais a rheolaeth iddynt. Bydd integreiddio a symleiddio'r gyfraith ar gyfer pobl hefyd yn rhoi mwy o gysondeb ac eglurder i'r bobl hynny sy'n defnyddio'r gwasanaethau cymdeithasol, eu gofalwyr, staff yr awdurdodau lleol a'r cyrff sy'n bartneriaid iddynt, y llysoedd a'r farnwriaeth. Bydd y Bil yn hybu cydraddoldeb ac yn gwella ansawdd gwasanaethau a'r wybodaeth a gynigir i bobl, yn ogystal â sicrhau bod yna gymhellion priodol i gomisiynwyr sicrhau bod yna bwyslais ar y cyd ar atal ac ymyrryd yn gynnar[1]."

**Beth yw swyddogaeth y pwyllgor?**

Swyddogaeth y pwyllgor yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chyflwyno adroddiad arnynt, ac ystyried yr angen am ddeddfwriaeth. Mae'r Bil yn ceisio darparu ar gyfer:

- deddfwriaeth yng Nghymru sy'n symleiddio ac yn egluro dyletswyddau, er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yn effeithlon, a lleihau'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen i weithio o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol;

- deddfwriaeth newydd a fyddai'n gwella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt, ac a fyddai'n

[1] http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs/pri-ld9181-em-e.pdf?langoption=3&ttl=PRI-LD9181-EM%20-%20Social%20Services%20and%20Well-being%20%28Wales%29%20Bill%20-%20Explanatory%20Memorandum

ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i integreiddio'r gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer oedolion a phlant, a'u gofalwyr, gyda Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am y ddau.

- hyrwyddo partneriaethau a dulliau o weithio'n agosach, mewn modd mwy integredig, rhwng awdurdodau lleol a rhwng awdurdodau lleol a chyrff eraill, gan gynnwys darparwyr y GIG.

- darparu ar gyfer gweithio ar y cyd, er mwyn hwyluso'r gwaith o ddiwygio gwasanaethau mabwysiadu;

- diweddaru ac egluro cyfrifoldebau a dyletswyddau awdurdodau lleol (a Byrddau Iechyd Lleol) mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n gadael gofal a phlant sy'n cael eu lletya;

- cryfhau'r cyfarwyddyd cenedlaethol a sicrhau bod cysondeb o ran mynediad at wasanaethau cymdeithasol ledled Cymru, gan sicrhau ar yr un pryd y cedwir atebolrwydd lleol am eu darparu;

- datblygu rôl llesiant a rôl ataliol well ar gyfer awdurdodau lleol a'u partneriaid, i helpu i osgoi neu i ohirio'r angen am ofal a chymorth;

- hyrwyddo'r broses o rymuso defnyddwyr gwasanaethau, drwy roi mwy o lais a mwy o reolaeth iddynt dros wasanaethau;

- cryfhau dulliau diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion.

Wrth ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i ystyried y pwyntiau a ganlyn:

i. a yw'r Bil yn cyflawni'r dibenion a nodir;
ii. y darpariaethau allweddol a nodir yn y Bil ac a ydynt yn briodol i gyflawni'r dibenion a nodir;
iii. y rhwystrau posibl o ran gweithredu'r darpariaethau allweddol ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
iv. a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n deillio o'r Bil;
v. barn rhanddeiliaid a fydd yn gorfod gweithio gyda'r trefniadau newydd;
vi. a yw'r Bil yn cynnwys cydbwysedd rhesymol rhwng y pwerau ar wyneb y Bil a'r pwerau a roddir gan Reoliadau.

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'w gynorthwyo yn ei waith o graffu ar y Bil. Yn benodol, hoffem gael eich barn ar y cwestiynau yn Atodiad 1.

Mae rhagor o wybodaeth am y Bil a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol yn:

http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5664

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig o'ch cyflwyniad at PwyllgorIGC@cymru.gov.uk a rhowch Ymgynghoriad – Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn y blwch Testun.

Neu ysgrifennwch at:

Claire Griffiths, Dirprwy Glerc
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai eich tystiolaeth ddod i law erbyn **15 Mawrth 2013**. Efallai na fydd yn bosibl ystyried tystiolaeth a gawn ar ôl y dyddiad hwn.

Wrth baratoi eich tystiolaeth, cofiwch y canlynol:

- dylai eich ymateb drafod y materion sydd gerbron y Pwyllgor. Cyfeiriwch at eich ymateb drwy ddefnyddio'r teitl a nodir uchod;
- mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i ymchwiliad cyhoeddus fel bod modd i'r cyhoedd graffu arni ac mae'n bosibl y bydd Aelodau'r Cynulliad yn cael eu gweld a'u trafod mewn cyfarfodydd Pwyllgorau. Os nad ydych am i'ch ymateb neu eich enw gael eu cyhoeddi, mae'n bwysig eich bod yn nodi hyn yn eich tystiolaeth;
- nodwch a ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn; a
- nodwch a ydych yn fodlon rhoi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg neu yn Saesneg a bydd yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig ac yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor yr haf.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gwahodd tystiolaeth gan y rhai sydd ar y rhestr ddosbarthu atodedig (Atodiad 2). Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr hwn at unrhyw unigolion neu sefydliadau nad ydynt ar y rhestr hon, ond a hoffai gyfrannu at yr ymchwiliad. Mae copi o'r llythyr hwn wedi cael ei roi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol, gyda gwahoddiad agored i gyflwyno barn.

**Datgelu Gwybodaeth**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Fay Buckle, Clerc y Pwyllgor, ar 029 2089 8041 neu â Claire Griffiths, y Dirprwy Glerc, ar 029 2089 8019.

Yn gywir

Mark Drakeford.

**Mark Drakeford AC**
Cadeirydd

Atodiad 1

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad

### Cyffredinol

1. A oes angen Bil i ddarparu ar gyfer un Ddeddf i Gymru sy'n dwyn ynghyd ddyletswyddau a swyddogaethau awdurdodau lleol a phartneriaid o ran gwella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt? Esboniwch eich ateb.

2. A ydych yn credu bod y Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio, yn cyflawni'r amcanion a nodwyd ym Mhennod 3 y Memorandwm Esboniadol? Esboniwch eich ateb.

3. Mae'r Bil yn ceisio galluogi awdurdodau lleol, ynghyd â phartneriaid, i ateb yr heriau y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn eu hwynebu, a dechrau ar y broses o newid drwy rannu'r cyfrifoldeb am hyrwyddo llesiant pobl. A ydych o'r farn y bydd y Bil yn hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy? Esboniwch eich ateb.

4. Sut y bydd y Bil yn newid y modd y caiff y gwasanaethau cymdeithasol eu darparu ar hyn o bryd, a pha effaith a gaiff newidiadau o'r fath, os o gwbl?

5. Beth yw'r rhwystrau posibl o ran gweithredu darpariaethau'r Bil (os o gwbl) ac a yw'r Bil yn ystyried y rhwystrau hynny?

6. Yn eich barn chi, a yw'r Bil yn cynnwys cydbwysedd rhesymol rhwng y pwerau ar wyneb y Bil a'r pwerau a roddir gan Reoliadau? Esboniwch eich ateb.

### Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

7. Beth yw eich barn chi ar y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (sef offerynnau statudol, gan gynnwys rheoliadau, gorchmynion a chyfarwyddiadau)?

Wrth ateb y cwestiwn hwn, efallai yr hoffech ystyried Pennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol, sy'n cynnwys tabl sy'n crynhoi'r pwerau a ddyrennir yn y Bil i Weinidogion Cymru i wneud gorchmynion a rheoliadau ac ati.

## Goblygiadau Ariannol

8. Beth yw eich barn chi ar oblygiadau ariannol y Bil?

Wrth ateb y cwestiwn hwn, efallai yr hoffech ystyried Pennod 8 o'r Memorandwm Esboniadol (yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol), sy'n amcangyfrif costau a manteision gweithredu'r Bil.

## Sylwadau eraill

9. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ynghylch adrannau penodol o'r Bil?

| | |
|---|---|
| Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | CAFCASS Cymru |
| Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr | Comisiynydd Plant Cymru |
| Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol |
| Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch |
| Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys | Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd |
| Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Felindre | Sefydliad Iechyd Gwledig |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol |
| Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru | Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd |
| Abertawe Bro Morgannwg | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan (Gwent, Caerffili, Tor-faen, Casnewydd, Mynwy) | Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth |
| Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr (Conwy, Gwynedd, Ynys Môn) | Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed | Conffederasiwn GIG Cymru |
| Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro | Action on Hearing Loss Cymru |
| Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf | Gweithredu dros Blant |
| Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda | Adoption UK |
| Cyngor Iechyd Cymuned Trefaldwyn | Age Cymru - Prosiect Fy Mywyd Mewn Cartref |
| Prif Weithredwyr - Awdurdodau Lleol Cymru | Ymddiriedolaeth AIDS Cymru |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol - Awdurdodau Lleol Cymru | All Care |
| Cyfarwyddwr Addysg - Awdurdodau Lleol Cymru | Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Pobl yn Gyntaf Cymru |
| Byrddau Diogelu Plant - Awdurdodau Lleol Cymru | Cofrestr Mabwysiadu y DU |
| Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan | Anheddau Cyf |
| Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru | Gofal Arthritis yng Nghymru |
| Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol | Cymdeithas dros Newid Go Iawn Cymru |
| Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yng Nghymru | Cymdeithas Spina Bifida a Hydroceffalws yng Nghymru |
| Cymdeithas Cenedlaethol Swyddogion Prawf | Ategi Ltd |
| Coleg Brenhinol y Ffisigwyr | Awtistiaeth Cymru |
| Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru | Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched |
| Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain yng Nghymru | Cymdeithas Genedlaethol Pensiynwyr Cymru |
| Sefydliad Prydeinig y Galon yng Nghymru | Y Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol |
| Cymdeithas Prydeinig Anableddau Dysgu | New Family Social |
| Y Groes Goch Brydeinig | NIACE Dysgu Cymru |
| Ymddiriedolaeth y Gofalwyr yng Nghymru | Cynghrair Eiriolaeth Pobl Hŷn |
| Hawliau Anabledd y DU | Un Llais Cymru |
| Gwasanaethau Nyrsio a Gofal Cartref Cerecare | PACT |
| Chwarae Teg | Y Ffederasiwn Rhieni |
| Cynghrair Pensiynwyr y Gwasanaeth Sifil | Parkinson's UK Cymru |
| CLIC Sargent | Cymdeithas y Cleifion |

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Ymarferwyr Cymunedol ac Ymwelwyr Iechyd | Fforwm Pensiynwyr Cymru |
| Cymdeithas Cludiant Cymunedol | Sense Cymru |
| Llais Defnyddwyr Cymru | RNIB Cymru |
| Contact the Elderly | Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thrwm eu Clyw Cymru |
| Croesffyrdd - Gofalu am Ofalwyr | Y Lleng Brydeinig Frenhinol |
| Gofal Galar Cruse Cymru | Achub y Plant |
| Cymorth Cymru | SNAP Cymru |
| Yr Ymddiriedolaeth Ffibrosis Systig | Stonewall Cymru |
| Daybreak (Wales) Ltd. | Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain |
| Dementia UK | Ymddiriedolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru |
| Cynghrair Iselder | The Disability Can Do Organisation |
| Plant Anabl yn Cyfri | Vision 21 (Cyfle Cymru) |
| Diabetes Cymru | Cynghrair Cynhalwyr Cymru |
| Epilepsi Cymru | Gwasnaeth Asesu Gyrru a Symudedd Cymru |
| Gingerbread | Cynghrair Niwrolegol Cymru |
| GISDA, John Edwards, Rheolwr Swyddfa | Senedd Pobl Hŷn Cymru |
| Cymdeithas y Teidiau a Neiniau | Rhwydwaith Gweithwyr Gofalwyr Cymru |
| Independent Age | Cyngor Cymru i'r Deillion |
| Cymorth Canser Macmillan | Cyngor Cymru i Bobl Fyddar |
| Merched y Wawr | Cynghrair Ailalluogi Cymru |
| Undeb y Mamau yng Nghymru | Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol y Merched |
| Rhwydwaith Menywod o Leiafrifoedd Ethnig yng Nghymru | Cymdeithas Rheolwyr Tai Ymddeol |
| Cymdeithas Iselder Manig - Sefydliad Deubegynol Cymru | Centre for Housing and Support |
| Mudiad Ysgolion Meithrin | Cymdeithas Plant Dewi Sant |
| NACRO Cymru | EroSH (Essential Role of Sheltered Housing) |
| Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru | Y Gymdeithas Gofal Cenedlaethol |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol Geni Plant | Cymdeithas Gofal Gogledd Cymru |
| Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yng Nghymru | Cymdeithas Cartrefi Nyrsio Cofrestredig |
| Ffederasiwn Cenedlaethol Pensiynwyr y Post Brenhinol a BT | Cymdeithas Gofal Cartref y DU |
| Cartrefi Melin | Seren Group |
| Cartrefi Abbeyfield | Pennaf Housing Group |
| Tai Cymoedd i'r Arfordir | Sefydliad Tai Siartredig Cymru |
| Family Housing Association (Wales) | Partneriaethau Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol |
| Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru | UNSAIN |
| Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Bangor | Uno'r Undeb |
| Canolfan Heneiddio Arloesol, Prifysgol Abertawe | GMB |
| Canolfan Ymchwil Gwaith a Gofal Cymdeithasol | Cyngres yr Undebau Llafur Cymru |
| Sefydliad Ymchwil Meddygaeth a Gofal Cymdeithasol - Canolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia Cymru | Prif Gwnstabliaid Lluoedd Heddlu Cymru |
| Prifysgol Caerdydd | Prif Swyddogion Tân Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru |
| Rhwydwaith Ymchwil a Datblygu Pobl Hŷn a Heneiddio | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Ysgol y Gyfraith Bangor | Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd |
| Ysgol y Gyfraith Aberystwyth | Fferylliaeth Gymunedol Cymru |
| Ysgol y Gyfraith Abertawe | Cyngor ar Bopeth Cymru |
| Ysgol y Gyfraith Morgannwg | Coleg y Therapyddion Galwedigaethol |
| Ysgol y Gyfraith Caerdydd | Cartrefi Cymunedol Cymru |
| Grŵp Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol | Consortiwm Bywydau Cymunedol |
| Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd | Cyswllt Teulu |
| Advocacy Matters | Consortiwm Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol |
| After Adoption | Dignified Revolution |
| Cynghrair Henoed Cymru | Anabledd Cymru |
| Age Connects – Age Cymru | Diverse Cymru |
| Cymdeithas Alzheimer's | Cymdeithas Gofal Cartref Cymru |

| | |
|---|---|
| Barnardo's | Cymdeithas Syndrom Down |
| Black Association of Women Step Out (BAWSO) | FNF Both Parents Matter Cymru |
| British Geriatric Society Wales | Rhwydwaith Maethu Cymru |
| Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint | GOFAL |
| Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru | GRWP Gwalia |
| BUPA | Hafal |
| Gofal a Thrwsio | Hafod Care |
| Rhwydwaith Cydgysylltu Gofal Cymru | Haven Trust |
| Care for the Family | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth |
| Fforwm Gofal Cymru | Sefydliad Joseph Rowntree |
| Cynhalwyr Cymru | Cymdeithas y Gyfraith |
| Cartrefi Cymru | Anabledd Dysgu Cymru |
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru | Leonard Cheshire Disability |
| Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi | Linc Care |
| Plant yng Nghymru | Lles Cymru/Wellbeing Wales |
| Darparwyr Eiriolaeth Iechyd Meddwl | Mencap Cymru |
| Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor | Public Health Wales |
| Y Gymdeithas MS | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| Yr Ymddiriedolaeth AIDS Genedlaethol | Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru |
| Gwasaneth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr Cymru | Coleg Brenhinol y Nyrsys |
| Nationwide Association of Fostering Providers | Grŵp Gofal Gydag Urddas Coleg Brenhinol y Nyrsys (Cymru) |
| Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru | Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant |
| Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant | Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru |
| Christine Rees, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Perthyn | Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith |
| Post Adoption Centre | Scope |
| Tai Pawb | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Tros Gynnal Plant | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Tunstall Healthcare | Comisiynydd y Gymraeg |
| Cymdeithas Tai Unedig Cymru | Grŵp Cynghorol Arweinwyr Ffisiotherapi Cymru |
| Voices from Care | Cyngor Ffoaduriaid Cymru |
| Cynghrair Efengylaidd Cymru | Cytyn |
| Yr Eglwys yng Nghymru | Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr |
| Cyngor Mwslemiaid Cymru | |